# Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 7 Mai 2002

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Atebwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**2.48pm**
**Datganiad: Gwnaeth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ddatganiad ar Hynt y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol**

**3.18pm**
**Datganiad Busnes: Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.22pm**
**Pwyntiau o Drefn**
**Cododd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad** bwynt o drefn ar y defnydd o iaith sarhaus yn ystod dadleuon.

**Cododd Rhodri Glyn Thomas** bwynt o drefn o dan Reol Sefydlog 6.28 ar hyd yr amser a ganiateir ar gyfer atebion a chwestiynau atodol.

**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**3.34pm**
**Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Gymru ar Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**
*NDM1041* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn cymeradwyo'r "*National Black, Minority Ethnic Housing Action Plan for Wales*" - a e-bostiwyd at yr aelodau ar 29 Ebrill 2002;

2. Yn cefnogi'r camau a nodir yn y Cynllun i helpu i oresgyn y gwahaniaethu a'r anfanteision a brofir gan gymunedau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n byw yng Nghymru; ac

3. Yn cydnabod y bydd gofyn i bob lefel o lywodraeth, pob sector, sefydliad ac unigolyn weithio gyda'i gilydd os am gyflwyno a datblygu'r Cynllun Gweithredu.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1 dileu 'cymeradwyo’r' a rhoi 'nodi’r' yn ei le

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu Pwynt 2 a rhoi:
Yn cydnabod bod gwahaniaethu ac anoddefgarwch yn wrthun i’n cymdeithas ac yn cytuno i fynd ati i hyrwyddo mwy o werthfawrogiad a dealltwriaeth o’r holl ddiwylliannau sy’n cael eu cynrychioli yng Nghymru, yn ein hysgolion, ein gweithleoedd ac yn ein gweithgareddau hamdden, ac wrth lywodraethu ein gwlad.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu pwynt 3 a rhoi:
Yn cydnabod y bydd angen rhoi cyfle digonol i bawb gael hyfforddiant, ynghyd ag adnoddau ychwanegol, er mwyn sicrhau y gall pob lefel o lywodraeth, pob sector, sefydliad ac unigolyn weithio gyda’i gilydd i ddarparu a datblygu’r Cynllun Gweithredu.

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu pwynt newydd:
Yn sicrhau bod digon o ddeunydd cyhoeddusrwydd perthnasol ar gael, ynghyd â chanolfannau cynghori a all ateb cwestiynau a gweithredu pan fydd angen.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 46; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 9; Ymatal 15; Yn erbyn 30; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Y cynnig**
O Blaid 54; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.17pm**
**Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru**
*NDM1043* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw ar y Llywodraeth i:

1. agor trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â fformiwla ariannu decach ar gyfer y Cynulliad, a honno wedi ei seilio ar angen;

2. sicrhau bod cyfran y symiau sy'n ganlyniad i'r cynnydd yn y gwariant ar iechyd, a gyhoeddwyd yn y gyllideb ddiweddar, yn gyfrannol yr un peth yng Nghymru â'r cynnydd yn Lloegr, gan gydnabod y byddai fformiwla bresennol Barnett yn atal y Cynulliad Cenedlaethol rhag cyflawni'r un gwelliannau yn y GIG yng Nghymru heb leihau'n ddifrifol y gyllideb ar gyfer blaenoriaethau eraill y Cynulliad;

3. pwyso am gynnydd yn y cyllid 'uwchlaw Barnett' er mwyn talu am y cynnydd mawr yn lefelau'r Arian Ewropeaidd ac arian cyfatebol y sector cyhoeddus, fydd ei angen ar ôl 2003 os ydym am osgoi dadneilltuo.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);**
Dileu pwyntiau 2 a 3.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 6; Ymatal 24; Yn erbyn 24; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Y cynnig**
O Blaid 16; Ymatal 0;Yn erbyn 38; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.26pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05am ddydd Iau, 9 Mai 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a osodwyd ar 7 Mai 2002**

Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1394

**Dogfennau a osodwyd ar 3 Mai 2002**

‘Dysgu Byw’n Wahanol’: Adroddiad Datblygu Cynaliadwy Cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru - LD1393

‘Sut Ydym Yn Dysgu Byw’n Wahanol’: Ail Adroddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ar Ddatblygu Cynaliadwy (2001-2002) - LD1392